# Treftadaeth gynhwysol



Merched ifanc ym mhrosiect treftadaeth naturiol SHEROES. Credyd: Wayfinding

Mae cynhwysiant yn ymwneud â chymryd camau i sicrhau bod cymdeithas gyfoes yn y DU yn cael ei chynrychioli'n well yn eich prosiect treftadaeth.

## Beth yw cynhwysiant?

Mae cynhwysiant yn ymwneud â chymryd camau i sicrhau bod cymdeithas gyfoes yn y DU yn cael ei chynrychioli'n well yn eich prosiect treftadaeth.

Credwn y dylai pawb allu elwa ar ein cyllid, beth bynnag fo'u hoed, anabledd, ethnigrwydd, rhywedd, rhywioldeb, ffydd, dosbarth neu incwm.

> "Mae gweithgareddau treftadaeth yn dod â phobl a chymunedau at ei gilydd mewn cymaint o ffyrdd gwych. Rydym wedi ein hysbrydoli'n gyson gan y nifer o ffyrdd creadigol a oedd yn flaenorol yn cael eu rhannu hanesion, gan ein helpu i gyd i ddysgu mwy am ein gilydd a'n bywydau personol, profiadau ac atgofion gwahanol."
>
> *Liz Ellis, Rheolwr Prosiect Polisi Cronfa Treftadaeth ar gyfer cynhwysiant*

## Y termau a ddefnyddiwn:

Yng Nghronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, rydym yn defnyddio'r acronymau:

- cymunedau ethnig amrywiol, neu gymunedau amrywiol ethnig, ac weithiau BIPoC. Yn yr Alban rydym yn defnyddio MECC (cymuned lleiafrifoedd ethnig a diwylliannol). Rydym yn rhoi'r gorau hi yn raddol i ddefnyddio'r term BAME (Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol).
- LGBTQ+ (hunaniaethau lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, queer a hunaniaethau eraill)

Rydym yn defnyddio'r acronymau hyn am ein bod yn credu eu bod yn cael eu deall yn eang. Gall hunaniaethau fod yn gymhleth a rhyngadrannol, ac rydym hefyd yn ymwybodol y gall y termau hyn deimlo'n annigonol neu'n gyfyngedig i lawer o'r amodau hyn. Rydym yn parhau i adolygu'r iaith a ddefnyddiwn yn gyson.

## Yr hyn a ddisgwyliwn gan brosiectau

Rhaid i bob prosiect a ariannwn gyflawni ein canlyniad gorfodol, sef y bydd **"ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth"**.

Dysgwch fwy yn ein canllawiau ar gynhwysiant.

Rydym am weld pob prosiect yn cymryd camau i estyn allan at bobl newydd, i rannu treftadaeth y tu hwnt i'w sefydliad, ac i ymgorffori arferion cynhwysol cyn belled ag y gallant.

Wrth gynllunio eich prosiect, sicrhewch fod pawb sy'n gweithio gyda chi yn teimlo bod croeso a theimlad o berthyn.

Sgroliwch i lawr y dudalen i weld rhai o'r prosiectau ysbrydoledig a gyllidwyd gennym, neu archwiliwch wahanol agweddau ar dreftadaeth gynhwysol isod.

## Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

Rydym am sicrhau bod ein cyllid yn agored ac yn hygyrch i bawb. Rydym wedi nodi cynllun i ddiwallu anghenion mynediad pobl, o wasanaethau cyfieithu i gymorth ymgeisio digidol.

Darllenwch fwy am yr addasiadau rhesymol y gallwn eu gwneud i chi

Expand All accordions

## Treftadaeth Pobl Ddu ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig



Rydym yn cefnogi pob math o brosiectau sy'n archwilio ac yn dathlu treftadaeth cymunedau ethnig amrywiol.

Rydym hefyd eisiau helpu'r sector ei hun i adlewyrchu poblogaeth y DU yn well.

Yr hyn a ariannwn

Expand All accordions

## Plant a phobl ifanc



Ers 1994, rydym yn falch o fod wedi buddsoddi mwy na £60miliwn ledled y DU mewn prosiectau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys y rhaglen Tynnu’r Llwch gwerth £10m.

Yr hyn a ariannwn

Expand All accordions

## Treftadaeth anabledd



Mae pobl anabl yn cael eu tangynrychioli ym mhob ardal o'r sector treftadaeth, gan gynnwys pobl sydd ag anableddau dysgu, pobl ag anableddau corfforol neu anableddau synhwyraidd neu'r rhai sy'n byw gyda dementia neu sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â phobl anabl i newid y sefyllfa annheg hon.

Yr hyn ariannwn

Expand All accordions

## Treftadaeth LHDT+



Ers 1994 rydyn ni wedi buddsoddi dros £12 miliwn ledled y DU wrth rannu straeon am LHDT+ (lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, queer a hunaniaethau eraill) treftadaeth, creadigrwydd, actifiaeth a llawer mwy.

Yr hyn ariannwn

Expand All accordions

# Treftadaeth llesiant



Gall treftadaeth feithrin cysylltiad â lle rydych chi'n byw, â'r bobl o'ch cwmpas neu â chymuned ar-lein. Gall gefnogi hyder a hunan-barch unigol, a darparu cyfleoedd i fod yn egnïol yn feddyliol ac yn gorfforol.

Gall treftadaeth hefyd ein helpu i ddod o hyd i ystyr a phwrpas yn ein bywydau. Mae'r ddau yn agweddau arwyddocaol ar sut rydyn ni'n profi lles.

Yr hyn ariannwn